



E-GYLCHLYTHYR Gwanwyn 2020



Diweddariad TYR

Croeso i lythyr newyddion De-ddwyrain Cymru, gan obeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel.

Mae'r pandemig COVID-19 sy'n ymledu ar draws y wlad yn effeithio ar y modd y mae pob un ohonom yn byw ac yn gweithio, ac mae'n effeithio hefyd ar y modd y caiff prosiectau a ariennir gan arian Ewropeaidd eu cyflawni. Yn ystod y cyfnod anodd hwn, rydym am barhau i gyfathrebu gystal ag y gallwn a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chi am yr hyn sy'n digwydd ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Byddwn yn anfon bwletinâu a negeseuon ebost a fydd yn cynnwys diweddariadau perthnasol, oherwydd rydym eisoes wedi gweld bod y sefyllfa'n newid yn sydyn. Os oes gennych newyddion am eich gweithrediad chi, rhowch wybod i ni a gallwn helpu i ddosbarthu'r wybodaeth yn ehangach. Rydym wedi gorfod gohirio'r digwyddiadau a'r cyfarfodydd yr oeddem wedi'u cynllunio ar gyfer y gwanwyn, ond byddwn yn ystyried sut y gallwn symud y gwaith hwnnw yn ei flaen gan ddefnyddio trefniadau amgen lle bynnag y bo modd.

Mae misoedd cyntaf 2020, heb os, wedi bod yn gyfnod prysur. Rydym wedi bod yn gweithio ar orffen ein hail ffilm, ac rydym yn edrych ymlaen at ei rhannu â chi ymhen ychydig wythnosau. Cafodd rownd gyntaf cyfarfodydd rhwydwaith Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer 2020 ei chynnal cyn i'r coronafeirws effeithio'n ormodol ar bethau, a chafodd ail gyfarfod gweithrediadau Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ei gynnal hefyd, a oedd yn gyfarfod llwyddiannus tu hwnt. Yn ogystal, rydym wedi estyn croeso i'n Swyddog Cyllid a Gwybodaeth newydd, sef Karyn Curtis.

Dymuniadau gorau i bob un ohonoch.

Yn y rhifyn hwn

Diweddariad TYR

Tudalen 1

Diweddariad WEFO

Tudalen 2

Dyfodol Cyllid Rhanbarthol

Tudalen 2

Perfformiad rhanbarthol

Tudalen 3

Tasglu'r Cymoedd

Tudalen 3

Cynllun Graddedigion PRC

Tudalen 4

Cymru'n Gweithio

Tudalen 5

Horizon 2020

Tudalen 5

Technocamps

Tudalen 6

Adroddiad Cyflwr y Genedl

Tudalen 7

Parc Rhanbarthol y

Cymoedd

Tudalen 8

Diweddariad WEFO

Er mwyn ymateb i'r amgylchiadau anghyffredin oherwydd COVID-19, mae WEFO wedi llunio arweiniad penodol ar sail [Cwestiynau Cyffredin](#) ynghylch gweithrediadau'r cronfeydd strwythurol. Os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau ynghylch effaith y coronafeirws ar eich gweithrediad chi, mae croeso i chi gysylltu â'ch Swyddog Datblygu Prosiect er mwyn sicrhau ei fod yn gallu rhoi arweiniad priodol i chi ac er mwyn sicrhau bod llwybr archwilio priodol ar waith.

Ers i'r DU ymadael â'r UE ddiwedd mis Ionawr, mae WEFO wedi cadarnhau y bydd y DU yn parhau'n rhan o raglenni'r UE a ariennir drwy Fframwaith Ariannol Amlflwydd 2014-2020 dan delerau'r Cytundeb Ymadael.

Mae hynny'n cynnwys yr holl Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Rhaglenni Cydweithredu Tirioagaethol Ewropeaidd,

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

Felly, ni fydd unrhyw newidiadau i drefniadau presennol eich prosiect(au) cyfredol a ariennir gan yr UE nes y bydd rhaglenni'r UE yn dod i ben yn 2023. Dylai'r prosiectau barhau i ddefnyddio WEFO Ar-lein i gyflwyno a diweddarau gwybodaeth, ac mae pob un o agweddau presennol y gwaith o reoli prosiectau'n parhau, sy'n cynnwys:

- cyflwyno a thalu hawliadau
- cynnal gwiriadau dilysu
- cadw cofnodion perthnasol.

Ar yr adeg hon yn y rhaglen, mae WEFO yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod gweithrediadau'n gwario ac yn defnyddio cymaint ag sy'n bosibl o gyllid y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

At hynny, gallwch barhau i gynnig am gyllid newydd dan y rhaglenni presennol.

Mae mwy o wybodaeth ar gael [yma](#).

[...yn ôl i'r brig](#)

Angen eich barn am ddyfodol Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad 12 wythnos ynghylch dyfodol buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru y tu allan i'r UE.

Mae'r ymgynghoriad yn ymdrin â chyfres o gynigion ynghylch buddsoddi cyllid amgen gan Lywodraeth y DU, er mwyn sicrhau twf cynhwysol ar draws pob rhan o Gymru gan adeiladu ar dystiolaeth ynghylch yr hyn sydd wedi gweithio'n dda ac adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd yn ystod 20 mlynedd o weithredu polisi rhanbarthol yr UE.

Mae'r ymgynghoriad wedi'i ddatblygu gyda rhanddeiliaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ac rydym yn ymgynghori ynghylch cynigion sy'n egluro pedwar maes buddsoddi â blaenoriaeth

(cynhyrchiant a chystadleurwydd busnesau, lleihau anghydraddoldebau incwm i bobl, cymunedau iachach a mwy cynaliadwy, a'r economi ddi-garbon) ac sy'n datganoli cyllid a phenderfyniadau fel eu bod yn nes at y bobl y bwriedir iddynt fod o fudd iddynt.

Mae'r ymgynghoriad i'w weld ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 22 Mai 2020.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi bwriadu cynnal pedwar digwyddiad ymgynghori ar draws Cymru yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill, ond oherwydd yr amgylchiadau digyffelyb sy'n ymwneud â'r coronafeirws ac er mwyn gwarchod iechyd a diogelwch rhanddeiliaid a staff, mae'r digwyddiadau hynny wedi'u canslo. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu'r cyflwyniadau a oedd wedi'u paratoi ar gyfer y digwyddiadau hynny, a bydd hefyd yn archwilio gweithgareddau ymgynghori rhyngweithiol ar-lein yn ystod yr wythnosau nesaf.

[...yn ôl i'r brig](#)

Perfformiad rhanbarthol

Dyma'r prif ffigurau diweddaraf sydd ar gael am berfformiad y gweithrediadau a ariennir gan gyllid y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn rhanbarth y de-ddwyrain. Os hoffech gael rhagor o fanylion am y data, anfonwch ebost atom yn sewalesret@bridgend.gov.uk. Nid yw'r data ar gael ar hyn o bryd ar [wefan WEFO](#).

Cronfa	Dangosydd	Ffigurau ar gyfer rhanbarth y de-ddwyrain
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop	Busnesau a gynorthwywyd	3,085
	Busnesau a grëwyd	1,088
	Swyddi a grëwyd	6,175
Cronfa Gymdeithasol Ewrop	Cyfranogwyr a gynorthwywyd	96,137
	Cyfranogwyr a gynorthwywyd i gyflogaeth	11,061
	Cyfranogwyr a enillodd gymwysterau	39,061
	Cyfranogwyr mewn addysg / hyfforddiant	2,465

[...yn ôl i'r brig](#)

Tasglu'r Cymoedd

Effeithiodd y llifogydd a achoswyd gan stormydd Ciara, Dennis a Jorge yn anghymesur ar gartrefi a busnesau yng nghymoedd y de. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd cronfa gwerth £10 miliwn ar gael i ddarparu cymorth ar gyfer gwaith atgyweirio ac adfer ar draws y cymunedau yr effeithiwyd arnynt. Os effeithiodd y llifogydd arnoch chi neu ar rywrai eraill yr ydych yn eu hadnabod, mae gwybodaeth ynghylch sut mae gwneud cais am gymorth ariannol ar unwaith i'w chael [yma](#).

At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod hyd at £2.5 miliwn o gyllid brys ar gael i gynorthwyo busnesau yr effeithiodd y llifogydd yn ddifrifol arnynt. Mae'r Grant Cymorth Llifogydd i Fusnesau ar gael i gynorthwyo busnesau bach a chanolig eu maint gyda'r costau adfer y byddant yn eu hwynebu'n syth oherwydd y difrod a'r problemau a achoswyd gan y stormydd. Mae swm o £2,500 ar gael i bob busnes er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o arian i dalu eu dyledion tra byddant yn methu â masnachu yn ôl yr arfer. Mae manylion ynghylch cymhwysedd a sut mae gwneud cais am y cyllid i'w chael [yma](#).

Ym mis Ionawr 2020, cynhaliodd y Tasglu ddigwyddiad gwib-rwydweithio ar gyfer prosiectau Cronfa Her yr Economi Sylfaenol, sydd ar waith yn y cymoedd, er mwyn helpu i gryfhau'r cysylltiadau a wnaed a hybu cydweithredu yn y cymoedd.

Ym mis Chwefror cynhaliodd Tasglu'r



Cymoedd ddigwyddiad datblygu cyfoeth cymunedol, lle gwelwyd llawer o ymgysylltu gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y Cymoedd. Bydd y Tasglu yn symud nifer o brosiectau peilot yn eu blaen ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd i bennu cwrpas y prosiectau hynny.

Os hoffech gael gwybod mwy am y Tasglu dilynwch ef ar [Facebook](#), [Twitter](#) ac Instagram @TrafodyCymoedd @TalkValleys / #EinCymoedd #OurValleys neu ewch i'w [wefan](#).

[...yn ôl i'r brig](#)

Cynllun Graddedigion PRC

Mae Cynllun Graddedigion Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC) wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau bod graddedigion a busnesau'n barod ar gyfer y dyfodol ledled PRC. Nod cynllun y Prifddinas-Ranbarth yw cysylltu dysgwyr a chyflogwyr â'i gilydd, gan hybu ein huchelgais i fod yn rhanbarth cysylltiedig, cystadleuol a chydnerth lle mae ein pobl orau a mwyaf disglair yn aros yn yr ardal ac yn cefnogi ein gweithlu llewyrchus. Wedi'r cyfan, mae gan ein rhanbarth dros 70,000 o fyfyrwyr sy'n astudio yn ein prifysgolion niferus.

Rydym yn rhaglen twf busnes sy'n canolbwyntio ar wella cynhyrchiant, arloesi a thwf economaidd, gan hyrwyddo'r Rhanbarth ar yr un pryd fel cyrchfan i raddedigion dawnus. Mae 57% o'r gweithlu yng Nghaerdydd wedi cymhwyso i lefel gradd, mae dros 32,000 o fusnesau wedi'u lleoli yng Nghaerdydd ac mae 69% o'r boblogaeth o oedran gweithio, felly mae Cynllun Graddedigion PRC yn hanfodol o safbwynt cydgysylltu'r gorau sydd gan PRC i'w gynnig.

Yr hyn yr ydym yn ceisio ei osgoi yn PRC yw 'draen dawn', sef bod ein graddedigion cymwys yn gadael y Prifddinas-Ranbarth ac yn symud i rannau eraill o'r DU. Dyna pam y mae ein Cynllun Graddedigion mor bwysig fel ein bod yn gallu lleoli ein graddedigion mewn cyflogaeth yn y rhanbarth, sy'n golygu y bydd gennym ranbarth sy'n fwy llewyrchus yn ei gyfanrwydd. Mor belled, rydym wedi profi llwyddiant gyda'n carfan gyntaf o raddedigion gan fod y mwyafrif o'r rhai a gafodd leoliadau'n ddiweddar wedi cael cynnig cyflogaeth lawn-amser, ac mae ein trydedd garfan o raddedigion wedi dechrau ar eu hyfforddiant.

Dyma'r adborth a gafwyd gan y garfan gyntaf o gyflogwyr a welodd raddedigion yn dechrau gweithio iddynt yn yr hydref:

- Mae **87.50%** o'r cyflogwyr wedi cynnig, neu'n bwriadu cynnig, cyflogaeth bellach i'w hunigolyn graddedig.
- Dywedodd **100%** o'r cyflogwyr y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cyflogi unigolyn graddedig arall yn y dyfodol drwy Gynllun Graddedigion PRC.
- Byddai **100%** o'r cyflogwyr yn argymhell Cynllun Graddedigion PRC i sefydliadau neu fusnesau eraill.

Os hoffech gael gwybod mwy am y graddedigion yr ydym wedi'u lleoli, darllenwch ein [hastudiaethau achos](#).



Rydym wedi lansio [gwefan](#) lle gallwch ddarllen nifer o astudiaethau achos gan raddedigion a gafodd eu lleoli'n llwyddiannus gennym; rhannu'r neges am gyfleoedd newydd i raddedigion drwy gyfrifon PRC ar [Twitter](#) a [Linkedin](#), a fydd yn eich galluogi i weld gwybodaeth am swyddi gwag arfaethedig ac am ddigwyddiadau a newyddion; ac ymuno â chymuned PRC o raddedigion/cyflogwyr, lle'r ydym yn ceisio cydgysylltu'r gorau sydd gan ein rhanbarth i'w gynnig.

Os hoffech gael gwybod mwy am Gynllun Graddedigion PRC, mae gennym nifer o ddigwyddiadau sydd ar ddod a allai fod o ddiddordeb i chi, waeth a ydych yn fusnes, yn fyfyrwr neu'n unigolyn graddedig.

Mae'n amlwg bod PRC yn lle gwych i weithio a byw ynddo, ac mae'n mynd o nerth i nerth

Cymru'n Gweithio

Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio wedi parhau i gynorthwyo cwsmeriaid drwy ddarparu arweiniad a chynghor ynghylch gyrfaedd. Yn ogystal â gwella sgiliau rheoli gyrfa, mae'r broses yn arwain at adnabod anghenion y cwsmer o ran datblygu a'r ffactorau sy'n atal hynny rhag digwydd. Mae cyfeirio'r cwsmer at sefydliadau a all ddarparu'r arbenigedd gofynnol yn agwedd hanfodol ar y rhyngweithio sy'n gysylltiedig â rhoi arweiniad.

Mae ein hymrwymiad i sicrhau ein bod yn gwella ein cydberthnasau â rhanddeiliaid yn parhau. Yn ddiweddar buom yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o gynadleddau sefydliadau sy'n bartneriaid i ni, a oedd yn cynnwys Cymunedau am Waith a Mwy, Cynhwysiant Gweithredol ac Ysbrydoli i Weithio. At hynny gwnaethom gynnal Cymhorthfa Sgiliau yng Nghwmbrân mewn cydweithrediad â'n cydweithwyr yn y cynllun Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth.



Arweiniodd y digwyddiad llwyddiannus hwnnw a gynhaliwyd ar y cyd at adborth cadarnhaol tu hwnt gan y cwsmeriaid a

gymerodd ran ynddo; gweler yr [erthygl yn News From Wales](#). Rydym yn awyddus i gyflwyno dulliau eraill o gydweithredu â'n partneriaid.

Ers dyddiad cychwyn Cymru'n Gweithio a hyd at 29 Chwefror 2020, rydym wedi cynorthwyo 30,117 o oedolion sy'n gwsmeriaid i ni ledled Cymru, gan gynnwys 15,939 yn y de. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â 5,951 o gwsmeriaid sy'n bobl ifanc, gan gynnwys 3,040 yn y de.

Fel y nodwyd mewn rhifynnau blaenorol o lythyr newyddion Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru, rydym yn awyddus i gefnogi cynifer ag sy'n bosibl o ddigwyddiadau ein partneriaid ar gyfer cwsmeriaid a rhanddeiliaid, ac mae timau'r de wedi mynychu dros 30 o ddigwyddiadau ers 1 Tachwedd 2019.

Yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgoreu a rhwydweithiau i rhanddeiliaid, rydym hefyd wedi sefydlu Fforwm Partneriaeth Merthyr yn ddiweddar. Nod y Fforwm yw dod â sefydliadau partner ynghyd o ardal Merthyr Tudful sydd â diddordeb mewn cynorthwyo pobl, yn bennaf er mwyn gwella eu cyflogadwyedd a'u sgiliau. Mae'r cyfarfod yn rhoi cyfle i rhanddeiliaid wella eu cydberthnasau proffesiynol, diweddarau eu gwybodaeth am y ddarpariaeth leol ac archwilio cyfleoedd i gydweithredu.

Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio â'n holl bartneriaid er mwyn sicrhau canlyniadau llwyddiannus i gwsmeriaid.

[...yn ôl i'r brig](#)

Horizon 2020

Cyflawni prosiectau Horizon 2020 yn ystod y pandemig COVID-19

Mae dwy ddogfen newydd sy'n cynnwys Cwestiynau Cyffredin am Horizon 2020 wedi'u cyhoeddi: [Force Majeure](#) and [Extensions to Horizon 2020 calls](#)

Caiff prosiectau eu cynghori i gysylltu â'r Unigolyn Cyswllt Cenedlaethol ar gyfer Materion Cyfreithiol ac Ariannol, [Stephen Alexander](#), os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon eraill. Fel arall, gallwch hefyd gysylltu â [blwch ebost Horizon 2020](#).

[...yn ôl i'r brig](#)


Adnoddau Covid-19 Technocamps ar gyfer ysgol gartref

Mae prosiect CGE Technocamps Prifysgol Abertawe wedi lansio cyfres o adnoddau ar-lein rhad ac am ddim i gefnogi disgyblion, athrawon a rhieni yn ystod yr achosion o Covid-19.

Gydag ysgolion ar hyd a lled Cymru a'r Deyrnas Unedig ynghau hyd nes y clywir yn wahanol o ganlyniad i'r pandemig sy'n mynd rhagddo, mae tîm cyflawni Technocamps wedi creu sawl offeryn i gynnal momentwm a chymhelliant.

Dechreuodd y staff gyda 'chlwb cod rhith' trwy ffrwd fideo ar-lein, a helpodd i roi mynediad i blant na fyddai fel arfer yn gallu mynychu'r clybiau yn bersonol.

Y bwriad yw mynd yn fyw bob dydd lau trwy gydol y cyfnod hwn, gyda'r tîm hefyd yn ystyried cyflwyno diwrnodau eraill.



Ymhlith yr adnoddau ar-lein eraill, sy'n rhad ac am ddim, y mae taflenni gwaith, fideos a chwisiau, ac anogir y disgyblion i weithio trwy'r pecynnau a chyflwyno eu gwaith i dîm y prosiect, sydd hefyd yn cynnal bwrdd sgorio ar-lein ar gyfer ysgolion a disgyblion, fel ei gilydd.

Anogir y disgyblion i weithio trwy'r pecynnau a chyflwyno'u gwaith i'r tîm. Byddant wedyn yn cael eu hychwanegu at fwrdd sgorio Technocamps, a bydd yna gyfle i ennill robot



Sphero ar gyfer eu hysgol, yn ogystal â thaleb Amazon gwerth £50 ar gyfer y disgybl gorau.

Dywedodd yr Athro Faron Moller, Cyfarwyddwr Technocamps ac Athro Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Abertawe:

"Yn ystod y cyfnod ansicr fel hwn, mae darparu gweithgareddau ar-lein ar gyfer dysgwyr ledled Cymru ac, yn wir, ledled gweddill y byd, yn fwy pwysig nag erioed. Mae tîm Technocamps wedi bod yn gweithio'n llawn-amser ers i'r ysgolion gau er mwyn sicrhau bod adnoddau diddorol, ysbrydoledig a rhyngweithiol ar gael trwy ein gwefan."

Dywedodd Stewart Powell, Rheolwr Gweithrediadau Technocamps:

"Rwy'n hynod o falch o'r ymgysylltu cychwynnol sydd wedi bod ag athrawon a rhieni sydd eisoes yn annog eu disgyblion a'u plant i ryngweithio. Ar hyn o bryd, mae pedwar pwnc ar gael, yn cynnwys codio cydosod trwy Little Man Computer, ac archwilio seiffrau yn rhan o'n pecyn gweithgareddau Cryptograffeg.

Yn ystod yr wythnosau sydd i ddod, byddwn yn ychwanegu amrywiaeth o weithgareddau newydd y gellir eu cwblhau i ennill rhagor o bwyntiau, er mwyn galluogi i'r myfyrwyr gymryd rhan yn ein byrddau sgorio ar gyfer ysgolion a'n byrddau sgorio unigol."

[Lawrlwythwch](#) y pecynnau gweithgareddau yma.

...yn ôl i'r brig

Cyflwr y Genedl

Mae Chwarae Teg wedi cyhoeddi ei [adroddiad 2020 ynghylch Cyflwr y Genedl](#), sy'n disgrifio sut y mae Cymru yn symud tuag at sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru.

Nododd yr adroddiad fod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru wedi codi i 14.5% a bod y bwlch mewn rhai ardaloedd mor uchel â 26%, tra mae'r ffigur ar gyfer y DU wedi gostwng. Mae tystiolaeth bellach yn dangos bod amddifadedd economaidd yn effeithio'n fwy helaeth ar fenywod gan fod 90% o rieni sengl yn fenywod, a bod aelwydydd rhiant sengl mewn mwy o berygl o ddioddef tlodi gan fod 44% ohonynt yn byw mewn tlodi.

Cafodd yr adroddiad, a gyhoeddwyd yn dilyn cwblhau'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, ei lansio mewn digwyddiad yn Nhŷ'r Gymuned yng Nghasnewydd, lle cafodd yr ystod o ddangosyddion cydraddoldeb rhywiol ei hesbonio gan gyfres o siaradwyr.

Caiff y dangosyddion hynny eu grwpio dan dair prif thema sy'n brif ffocws strategol y gwaith a gyflawnir gan Chwarae Teg:

1. **Menywod yn yr Economi:** creu Cymru lle mae menywod yn cyflawni ac yn ffynnu ar draws pob sector ac ar bob lefel o'r economi
2. **Cynrychiolaeth Menywod:** creu Cymru lle mae menywod yn amlwg ac yn

ddylanwadol ar draws pob sector o'r economi a'r gymdeithas ac mewn bywyd cyhoeddus

3. **Menywod mewn Perygl:** creu Cymru lle mae menywod yn cael eu grymuso i wireddu eu potensial, waeth beth yw eu cefndir, eu statws cymdeithasol neu'u lleoliad daearyddol.

Buodd panel a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Oxfam Cymru, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru ac Anabledd Cymru yn trafod y canfyddiadau, a chynhaliwyd sesiwn holi ac ateb er mwyn rhoi cyfle i'r gynulleidfa gael gwybod mwy. Yn ystod y prynhawn, cafodd y sawl a oedd yn bresennol gyfle i fyfyrio ynghylch yr ymchwil a thrafod sut mae trechu tlodi ymhlith menywod yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhellion sydd yn yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol er mwyn sicrhau bod Cymru yn arwain y byd ym maes cydraddoldeb rhywiol. Mae'r adolygiad yn pennu rhaglen uchelgeisiol ar gyfer newid hirdymor yn y modd y mae Llywodraeth Cymru yn datblygu, yn cyflawni ac yn gwerthuso polisïau a rhaglenni.

Mae angen camau pellgyrhaeddol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y mae menywod sydd â chyfrifoldebau gofalu a menywod sy'n dioddef tlodi, camdriniaeth ac aflonyddu'n dod ar eu traws.



Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Tîm newydd ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Mae tri aelod newydd wedi ymuno â Phil Lewis yn nhîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd, sy'n ailgysylltu pobl â'r dirwedd gan ddefnyddio dull rhanbarthol o weithio mewn partneriaeth.



Mae'r ecolegydd Dan Locke yn ymuno â'r tîm o Barc Gwledig Bryngarw ac mae hefyd yn

ymgyngorydd llawrydd. Mae Mari Lowe yn symud draw o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac mae ganddi gefndir amlwg yn y sector diwylliannol ac ym maes gweithio mewn partneriaeth. Mae Julie Davies yn ymuno â'r tîm gyda phortffolio cyfoethog, llawn profiad o weithio ym maes datblygu cymunedol ac iechyd cyhoeddus.

Mae dod i adnabod pobl ar lawr gwlad wedi bod yn flaenoriaeth i'r tîm newydd, yn ogystal ag ymgysylltu â'r un ar ddeg o safleoedd a fydd, gyda'i gilydd, yn cael buddsoddiad gwerth £7 miliwn. Caiff y safleoedd eu galw'n Byrth Darganfod, ac maent yn ganolfannau yn y dirwedd lle gall pobl archwilio treftadaeth naturiol a diwylliannol y cymoedd.

Mae trefniadau cyfathrebu a marchnata'n cael eu cwblhau ac mae gwefan a sianelau ar gyfryngau cymdeithasol wrthi'n cael eu creu. Gallwch ddisgwyl digon o gynnwys digidol newydd am y dirwedd, llesiant a'r gymuned. Yn y cyfamser, mae pob un o'n partneriaid yn defnyddio'r hashnod [#ParcRhanbartholCymoedd](#) / [#ValleysRegionalPark](#) ar Twitter, felly mae'n ffordd wych o gael gwybod mwy.

